Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# CYMRU YNG NGHAEREDIN
# WALES IN EDINBURGH

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Mae'r rhaglen, **Cymru yng Nghaeredin**, yn gronfa arddangos sy'n cefnogi artistiaid sy'n dod o Gymru ac sy'n byw yng Nghymru i gyflwyno eu gwaith ar lwyfan rhyngwladol, Gŵyl Ymylol Caeredin. Y nod yw cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, datblygu cysylltiadau cynaliadwy a chyfoethogi eu hymarfer.

## Cynnwys


Cymru yng Nghaeredin .......... 3
Eich cynnig .......... 4
Pwy sy'n gallu ymgeisio? .......... 5
Meini prawf dewis .......... 6
Sut mae ymgeisio? .......... 7
Pryd mae ymgeisio? .......... 8
Hygyrchedd .......... 8
Pa gwestiynau fydd yn rhaid imi eu hateb? .......... 8
Angen cysylltu â ni? .......... 10


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Cymru yng Nghaeredin

Gŵyl Ymylol Caeredin yw gŵyl gelfyddydol fwyaf y byd. Mae Cymru yng Nghaeredin yn arddangosfa wedi'i churadu sy'n hyrwyddo'r ansawdd uchaf o Gymru ym myd theatr, dawns, cerddoriaeth a syrcas. Gweledigaeth y rhaglen yw defnyddio Gŵyl Ymylol Caeredin nid fel cyrchfan ond fel llwyfan i'n sefydliadau celfyddydol a'n gweithwyr creadigol wireddu eu huchelgeisiau rhyngwladol.

Mae cynulleidfaoedd, rhaglenwyr, hyrwyddwyr a chynhyrchwyr o ledled y DU a'r byd yn mynd i'r ŵyl. Rydym yn credu bod gan weithwyr creadigol a chwmnïau celfyddydol o Gymru ansawdd unigryw sy'n gallu gweithio ar raddfa fyd-eang.

Mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy ei dîm rhyngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'n cynnig cyfle i gwmnïau celfyddydol a gweithwyr creadigol sy'n barod i arddangos, datblygu eu marchnad a dod o hyd i ffyrdd o wella eu patrymau o deithio gwaith y tu allan i Gymru.

Bydd ein proses ddewis yn adlewyrchu ein chwe blaenoriaeth yn yr Adolygiad Buddsoddi: Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltiad, y Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent, Trawsnewid. Mae llais unigolion a mynegiant personol Cymru o bwys inni. Rydym yn ymrwymedig i ragoriaeth a chefnogi celf feiddgar, arloesol a phryfoclyd.

Rydym am weld cynigion gan gwmnïau a gweithwyr creadigol sydd â hanes hysbys o greu gwaith diddorol a pherthnasol sy'n barod i'w arddangos yn yr Ŵyl Ymylol ac i'w deithio y tu hwnt i Gymru yn y dyfodol.

Bydd ystod eang o ymgeiswyr a gwahanol feintiau o gynhyrchiad yn ymgeisio i'r gronfa. Felly, rydym yn gofyn i'n hymgeiswyr ystyried y gronfa fel cyfraniad yn unig tuag at gost cyflwyno eu gwaith yn yr ŵyl gan gynnwys talu am y lleoliad, llogi technegol, hygyrchedd, marchnata, llety a ffioedd perfformio.

**£80,000** yw'r cyfanswm sydd ar gael i Gymru yng Nghaeredin 2024. Byddem yn disgwyl ariannu 4-5 ymgeisydd sy'n barod i arddangos gyda chynigion cryf.

# Eich cynnig

Byddwn am weld rhesymeg gryf ac argyhoeddiadol dros unrhyw gynnig i Gymru yng Nghaeredin.

Nid ydym yn disgwyl i bob cynnig fod wedi'i gynhyrchu'n llawn. Byddwn yn fodlon ichi ragddangos gwaith neu gynnal perfformiadau am y tro cyntaf yn yr ŵyl. Ond byddem yn disgwyl gweld hanes cryf o lwyddo yn eich portffolio o waith.

Rydym yn disgwyl ichi ddangos inni sut y bydd y cynhyrchiad:

- o'r ansawdd uchaf
- yn nodedig a chyffrous
- yn codi eich proffil rhyngwladol a phroffil Cymru
- â'r posibiliadau o ddenu cynulleidfaoedd

Mae'n bwysig bod y gwaith yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Felly byddwn am weld marchnata a datblygu cynulleidfa realistig ac argyhoeddiadol lle mae pob partner yn cydweithio i wneud y mwyaf o'r gynulleidfa yng Nghaeredin. Byddwn hefyd eisiau deall pam eich bod wedi dewis lleoliad penodol.

Dim ond sefydliadau a gweithwyr creadigol sydd yng Nghymru neu sydd â hanes helaeth o weithio yma sy'n gallu ymgeisio i'r gronfa.

**5pm ar 15 Chwefror 2024 yw'r dyddiad cau ymgeisio.**

Panel o arbenigwyr allanol ac aelodau perthnasol o'n tîm a fydd yn ystyried eich cais.

## Pwy sy’n gallu ymgeisio?

Cwmnïau cynhyrchu proffesiynol a gweithwyr creadigol. Rhaid ichi allu profi bod eich cwmni neu eich ymarfer yng Nghymru neu eich bod wedi gweithio’n helaeth yma.

Mae’n rhaid ichi fod â:

- hanes hysbys o ddarparu gweithgareddau celfyddydol o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr.
- Polisi Cyfle Cyfartal y mae eich corff llywodraethu wedi’i adolygu yn y tair blynedd diwethaf ac sy’n cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth bresennol. Os gweithiwr creadigol ydych chi, rhaid ichi ddangos inni fod gennych ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfle Cyfartal a’ch bod yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich ymarfer.
- cyfrif banc yn enw eich sefydliad sy’n gofyn am o leiaf dau berson i awdurdodi trafodion neu, yn achos gweithwyr creadigol, gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth am gyfrifon banc i sefydliadau cliciwch yma ac i weithwyr creadigol cliciwch yma.
- rhaid i weithwyr creadigol fod dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru neu wedi gweithio’n helaeth yma.
- os yw eich prosiect yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rhaid ichi hefyd fod â Pholisi Diogelu neu Bolisi Amddiffyn Plant y mae eich corff llywodraethu wedi’i adolygu yn y tair blynedd diwethaf ac sy’n cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth bresennol. Rhaid i’r polisi ddangos bod eich cynllunio a’ch gwaith o ddydd i ddydd yn rhoi sylw i ofynion diogelu.
- os yw gweithwyr creadigol am arwain gweithgareddau gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig y bydd partner sefydliadol sydd â gweithdrefnau diogelu priodol yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb o ddiogelu drwy gydol y prosiect.

Ni fyddwch yn gallu ymgeisio am arian os ydych yn diffygdalu unrhyw gytundeb ariannol â ni.

Byddwn yn gofyn ichi gadarnhau bod eich sefydliad (neu yn achos unigolion) eich bod chi’n bodloni ein gofynion i fod yn gymwys wrth ddechrau ymgeisio ar-lein.

# Meini prawf dewis

### Darparu safon artistig

Beth yw'ch cynhyrchiad? Pam dylai gael ei weld yn yr Ŵyl yn 2024? Pam fod nawr yn amser da yn eich gyrfa neu hanes eich cwmni i'w gyflwyno yn yr ŵyl?

### Uchelgeisiau rhyngwladol

Beth yw eich uchelgeisiau rhyngwladol? I ble hoffech gymryd eich gwaith? Pa waith caib a rhaw rydych wedi'i wneud hyd yma i gyflawni eich uchelgeisiau rhyngwladol? Gyda pha feysydd hoffech chi gael cefnogaeth?

### Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus

Ym mha leoliad byddwch yn cyflwyno eich gwaith? Beth yw'r cytundeb ariannol â'r lleoliad? Pa dystiolaeth o'r galw sydd am gyflwyno eich gwaith yn yr ŵyl? Sut byddwch yn gwerthuso'r buddion artistig ac ariannol hir dymor o berfformio yn yr ŵyl?

### Budd i'r cyhoedd

Sut byddwch yn hyrwyddo'r celfyddydau perfformio yng Nghymru a diwylliant dwyieithog Cymru wrth gyflwyno eich gwaith yn yr ŵyl i gynulleidfa ryngwladol? Sut bydd eich presenoldeb yno'n cyfrannu at sector celfyddydol Cymru yn yr hir dymor?

### Ariannu prosiect llwyddiannus

Sut byddwch yn llwyddo cyflawni'r prosiect? Pa ragdybiaethau sydd y tu ôl i'ch cyllideb? Pa mor realistig a hawdd eu gwireddu yw eich gobeithion am ennill incwm? Sut byddwch yn codi arian gan bartneriaid eraill?

### Ôl troed carbon

I adeiladu economi gryfach a gwyrddach, rhaid inni wneud cynnydd tuag at ddatgarboneiddio. Pa gynnydd a pha fesurau rydych yn eu hystyried, neu sydd yn eich cynnig yn barod, i leihau eich ôl troed carbon a gwella bod yn gynaliadwy'n amgylcheddol?

## Sut mae ymgeisio?

1. Rhaid ichi ddefnyddio ein porth ar-lein. Os nad ydych wedi gwneud hyn o'r blaen, rhaid ichi gofrestru i fynd i'r porth. Dyma sut i'w wneud.

   Os nad ydych yn gallu mynd i'r ffurflen ar-lein neu os oes angen cymorth pellach arnoch, cysylltwch â grantiau@celf.cymru

2. Llenwch ffurflen gais Cymru yng Nghaeredin yn ein porth ar-lein

3. Lanlwythwch y deunydd ychwanegol yma hefyd:

   - Cynnig sy'n ymateb i'r cyfle a'r meini prawf dewis uchod.

     Byddwch yn gallu gwneud hyn yn ysgrifenedig neu drwy sain/fideo. Yr uchafswm yw 5 ochr A4 neu 4 munud o sain neu fideo.

     Rhaid iddo fod mewn un ffeil (Word neu pdf) gyda ffont o 12 pwynt neu fwy. Uchafswm y ffeil yw 250MB.

     Rhaid cael yr holl ddeunydd fideo a sain ar ffurf dolenni i'ch gwefan, Fimeo neu YouTube. Cofiwch gynnwys y cyfrinair os oes ei angen.

   - Cyllideb i ddisgrifio sut byddech yn defnyddio'r arian.
   - O leiaf dau lythyr sy'n cefnogi eich prosiect gan bobl eraill sy'n annibynnol.

4. Byddwn yn cydnabod cael eich cais. Os yw'n gymwys, byddwn yn ei asesu.

5. Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn yn anfon atoch nodyn ichi dderbyn y grant. Os nad ydych yn llwyddo, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam a chynnig cyfle i gael adborth.

6. Rhaid ichi lofnodi a dychwelyd eich nodyn derbyn grant a rhaid inni wirio eich manylion. Wedyn byddwn yn rhyddhau 90% o'ch grant gan dalu'r 10% sy'n weddill ar ddiwedd eich prosiect.

## Pryd mae ymgeisio?

**5pm ar 14 Chwefror 2024** yw'r dyddiad cau ymgeisio.

Erbyn **20 Mawrth 2024** y byddwn yn disgwyl penderfynu ar y ceisiadau.

## Hygyrchedd

Os oes gennych anghenion hygyrchedd a'ch bod yn meddwl ymgeisio, byddwn yn gallu eich cefnogi trwy'r broses. Cysylltwch â ni neu â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth yn grantiau@celf.cymru i drafod pa gymorth hoffech ei gael.

Mae rhagor am gymorth hygyrchedd yma.

## Pa gwestiynau fydd yn rhaid imi eu hateb?

1. **Gwirio cyn ymgeisio**
   Rhestr wirio cyn ymgeisio
2. **Cysylltu â chi**
   Pwy yw'r person cyswllt am eich cais? Bydd hyn yn cynnwys eich dewis iaith a gwybodaeth am eich cyfrif banc.
3. **Disgrifiwch eich prosiect**
   Gwybodaeth allweddol am eich prosiect gan gynnwys ei deitl, ei ddyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllidebol sylfaenol gan gynnwys costau hygyrchedd.
4. **Cynnig y prosiect**
   Rhaid ichi roi crynodeb (100 gair ar y mwyaf) o'ch prosiect yn y blwch cyntaf. Disgrifiwch eich prosiect gan ganolbwyntio ar y prif syniad artistig/creadigol a'ch rheswm am ei wneud nawr. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma mewn cyhoeddusrwydd am eich prosiect.

   Yr ail flwch sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am eich prosiect – rhowch yna:

   **Cymru yng Nghaeredin, mae'r cynnig yn ymateb i'r meini prawf dewis**

   Uchod mae'r manylion am yr atodiadau sydd eu hangen i'ch cais. Lanlwythwch nhw fel deunyddiau ategol.

**5. Celfyddyd**

Pa ystod o waith celfyddydol fydd yn eich prosiect?

**6. Math o weithgarwch**

Pa fath o weithgarwch fydd yn eich prosiect?

**7. Eich targedau**

Beth yw targedau eich prosiect gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, y perfformiadau, y gweithdai a'r cynulleidfaoedd/mynychwyr?

**8. Iaith**

Pa effaith bydd y prosiect yn ei chael ar y Gymraeg? Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

**9. Lleoliad y prosiect**

Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

**10. Cydraddoldeb**

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb inni ar gyfer eich prosiect.

**11. Adolygu eich cais**

Yma byddwch yn gweld pob rhan o'ch cais. Gwiriwch y cais a'i ddiweddaru os oes angen.

**12. Gwirio cyn cyflwyno**

Cofiwch: ar ôl clicio ar y botwm 'Nesaf' isod, ni fyddwch yn gallu golygu unrhyw wybodaeth yn yr adrannau blaenorol.

Yma mae crynodeb o'ch gwybodaeth. I newid unrhyw beth yn eich atebion, cliciwch ar y botwm 'blaenorol' ar waelod y dudalen i ddychwelyd i'r tab adolygu.

**13. Dogfennau ategol**

Mae'r adran Sut mae ymgeisio? uchod yn disgrifio sut i gyflwyno'r cais.

**14. Datganiad a chyflwyno eich cais**

Darllenwch y datganiad a chyflwynwch eich cais.

# Angen cysylltu â ni?

I gael cyngor datblygu am eich cynnig i Gymru yng Nghaeredin, cysylltwch â: maggie.dunning@celf.cymru

Os bydd gennych unrhyw broblemau technegol gyda'r ffurflen neu'ch cyfrif yn y porth, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru

## Mae sawl ffordd arall i gysylltu â ni:

Ffôn: 03301 242733 (yr un pris ag â ffonio'n lleol)
9am-5pm ddydd Llun hyd ddydd Iau, 9am-4.30pm ddydd Gwener

Gwefan: celf.cymru

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts